dad enwocach yn ceisio rhagor o danwydd (wedi ei ysgrifennu am reswm na chofiaf mewn Eingl-Sacsoneg); dogfen ddrwgargoelus arall at gyd-ddarlithydd yn ei rybuddio yn swyddogol ei fod mewn perygl mawr o gael ei alltudio fel estron annerbyniol o ganlyniad i ryw ddarlith ddiniwed o'i eiddo, a hynny ar sail yr is-rannau a ddyfynnid o ddeddf hynafol yn erbyn gwrachyddiaeth? Fel pob *'forgery'* da yr oedd mor ddilys yr olwg nes achosi dirfawr wewyr i'r derbynnydd a drodd yn gynddaredd pan ddarganfu'r dioddefwr rai o'r tudalennau arbrofol ar ddamwain.

Bryd arall ni ddaethai gwrthrych y tric byth i wybod; megis y ddwy chwaer barchus a gafodd fraint a'u plesiodd yn fawr, sef ymweliad gan Fonsignor defosiynol iawn a oedd ar ei ffordd yn ôl i Rufain. Prin fod angen dweud pwy oedd y gŵr hwnnw a gawsai, mae'n wir, gyfnod i ymgyfarwyddo â 'chrefydd menych Rhufain'. Fel yn achos yr archgastiwr Horace de Vere Cole (1881-1936) (cyfaill Augustus John a Virginia Woolf), dylid mynd â chrib fân drwy restr o briodoleddau Tecwyn, hefyd, mewn unrhyw gyhoeddiad tebyg i *Who's Who*.

Gosododd hynafdod bris uchel ar ambell grair a ffugiwyd, a rhoddodd ystyriaethau eraill werth ar ffugiadau diweddarach. Pa gymhellion bynnag a fu gan ffugwyr yr oesau, tynnu coes oedd amcan Tecwyn, tynnu coes a alwai am dipyn o ymroddiad ac amser, heb sôn am fedrusrwydd sylweddol. Golygodd cyfeillgarwch ag ef, a gwirioni ynghylch rhai o'r un pethau, fy mod i wedi dod i berthyn i'r cylch elît a gâi rannu'r jôcs caboledig yma. Y blaenaf oedd Syr Thomas Parry, a chyfnewidiai'r ddau y dernynnau ceinaf o femrynnau 'hynafol' a soniai am Gymry cyfoes. Trysoraf ddarnau o felwm o'r 'Canol Oesoedd' (ynghyd â nodiadau dysgedig arnynt) sy'n sôn am ryw abad o'r enw Towyn yn nhre Myrddin gynt a garai win coch &!

Twylla rhai eu hunain wrth gwrs, er boddhad mawr i eraill. Nid yn aml y gellid ychwanegu perl at wybodaeth helaeth ac ysgolheigaidd Tecwyn ond ymhyfrydaf yn y ffaith imi gyflwyno un cymeriad iddo nad oedd yn digwydd gwybod amdano cyn hynny. Dotiodd at naïfrwydd hanesyddol Syr John Lynn Thomas (1861-1939) a'i *Key of All Wales* a'r *Sequel* iddo, a chaed erthygl ganddo ar y pwnc cyn pen fawr o dro *'This stone must be of great antiquity'* meddai'r cyn lawfeddyg ymgynghorol (y cyntaf yng Nghymru) wrth John y Gwas, oracl Felindre, Llandysul,



*Y Mesotint*

rywdro, am garreg gyffredin ar ben clawdd. Digon gwir, wrth gwrs, y *mae* sawl blwyddyn ers y Creu ond cerfluniau o Oes y Cerrig oedd cynifer o bennau hyrddod cyffelyb i Syr John.

Rhagymadroddi diangen, wrth gwrs, fu llawer o'r hyn a ysgrifennais eisoes i'r sawl a adnabu Tecwyn yn dda, ac wrth ddod at y pranc y manylaf arno isod, gwn mai peth anffodus i'r sawl sy'n gyfarwydd â stori M. R. James 'The Mezzotint' fydd gorfod dygymod ag unrhyw grynodeb ohoni. Mwy chwithig fyth fydd gwarafun gwefr y gwreiddiol i'r anghyfarwydd drwy ei hamlinellu fel hyn, ond mae gwybod y stori yn hanfodol i werthfawrogi'r hyn sy'n dilyn.

Ei chymeriad canolog yw academydd o'r enw Williams. Ef sydd â chyfrifoldeb am gasgliad gwych ei brifysgol o ddyluniadau ac ysgythriadau topograffaidd Seisnig. Ar argymhelliad dygn cwmni J. W. Britnell cytuna i dderbyn eitem Rhif 978 o'u catalog diweddaraf ar brawf. Siomedig, er hynny, yw'r mesotint 15x10 modfedd mewn ffrâm ddu o hen dŷ liw nos. Nid yw ond y math o beth a welech ym mharlwr unrhyw dafarn, ac felly mae'r pris o ddwy gini yn afresymol o uchel, yn enwedig gan fod hanner y label ar y cefn wedi rhwygo ymaith ac na ellir lleoli'r tŷ. Sylwa ef a chyfaill fod fel petai pen rhywun wrth ymyl y llun yn edrych i gyfeiriad y tŷ. Yr unig beth nodedig arall yw prif-lythrennau enw'r arlunydd ar yr ymylwaith: 'A. W. F. sculpsit'.

Buasai'n dda petai Williams wedi talu sylw ar y pryd i rywbeth a ddywedodd un o'r cwmni a alwodd gydag ef ar ôl swper y noson honno am gynnwys y darlun, ond ni wnaeth. Tafla olwg arall arno yn hytrach wrth fynd i'w wely ychydig wedi hanner nos, ac ni wna ond prin arbed gollwng y gannwyll. Cyffesa'n ddiweddarach y buasai wedi llewygu petai wedi cael ei hun mewn tywyllwch y foment honno. Ar ganol y lawnt o flaen y tŷ yn y darlun wrth olau leuad, lle nad oedd dim cyn hynny, gwêl ffigwr grotesg yn cropian ar ei bedwar tua'r adeilad. Yn ffodus mae ganddo nifer o ystafelloedd eraill ar draws y coridor, a gosoda'r llun mewn drôr cloëdig yn un ohonynt, a chloi drysau eraill rhyngddo ac ef, ond ni ddaw cwsg yn hawdd iddo.

Penderfyna ofyn barn ei gymydog, Nisbet, amdano dros frecwast drannoeth. Rhydd y darlun yn ei law heb edrych arno a heb esbonio, a cheisio ganddo ddisgrifio yr hyn a wêl. Nid oes olwg o'r ffigwr ysgeler bellach ond mae un o ffenestri'r tŷ ar agor led y pen a cheir y teimlad annifyr fod rhyw ddrama ddieflig ar waith. Cadarnheir y newid gan un o gwmni'r noson cynt. Cytunir i fynd allan i gerdded yn y prynhawn gan ei adael ar y bwrdd a chloi'r drws arno.

Cynhyrfir hwy braidd, pan ddychwelant o weld fod drws Williams wedi ei ddatgloi, ond buan y sylweddolir fod y 'skip' (sef gwas coleg yng Nghaergrawnt) yn galw heibio awr neu ragor yn gynharach ar brynhawn Sul. Peth annisgwyl, er hynny, yw ei gael yn eistedd yng nghadair Williams yn rhythu ar y darlun. Neidia mewn braw pan gerdda'r tri chyfaill i mewn gan ymddiheuro am ei ymddygiad anarferol, a chyda'r un moesgarwch mentra ddatgan ei farn na charai i'w ferch fach weld y fath ddarlun am y buasai yn dychryn yn enbyd rhag y sgerbwd erchyll a'r baban yn ei freichiau. Y funud y gadawa'r ystafell closia'r cyfeillion at y darlun.

Bellach mae'r ffenestr yn gaeëdig ond mae'r ffigwr ofnadwy wedi ailymddangos. Brasgama tua blaen y darlun gan grymu ei ben a diolchant i'r drefn na fedrant weld llawer o'i wyneb ond yn ddigon amlwg y mae'n dal plentyn yn dynn yn ei freichiau esgyrnog. Cadwant olwg manwl arno tan amser swper ond ni newidia. Pan ddychwelant o'r ffreutur does yna ddim yn tarfu ar lonyddwch y tŷ yng ngolau'r lloer.

Eir ati i ymchwilio, ac yn hwyr y noson honno, tybir ar sail cyfeiriad yn *Murray's Guide to Essex*, mai Anningley Hall yw'r tŷ. Diflanasai unig blentyn o etifedd y lle hwnnw o dan amgylchiadau rhyfedd. Cofia Green (cymrawd hŷn y Coleg a Bwrsar am flynyddoedd lawer) iddo glywed fod yr hen sgweier olaf yn llym iawn ar botsiers a'i fod wedi cael gwared ohonynt o'r ardal bob yn un ac un, hyd nes nad oedd ond un ar ôl, potsier na fedrid byth mo'i ddal, gweddillion olaf hen deulu o dras a dyn tebyg i hwnnw yn *Tess o' the Durbervilles*. Ryw noson bu mor anffodus â saethu ciper. Sicrhaodd uchel reithgor, fel yr oedd pethau y dyddiau hynny, ei fod yn cael ei grogi cyn pen fawr o dro, a'i gladdu yn y fynwent leol. Credai rhai mai rhyw gyfaill iddo a ddialodd y cam drwy gipio'r etifedd bach a